Tachwedd 24ain 2020

Penderfyniad Cymwysterau Cymru ar asesiadau di-arholiad ac arholiadau mis Ionawr 2021

Annwyl riant/warcheidwad,

Yn dilyn penderfyniad Gweinidog Addysg i ganslo arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021, mae Cymwysterau Cymru wedi gwneud penderfyniadau ar asesiadau ar gyfer TGAU 2021:

1. Bydd **asesiadau di-arholiad (NEA)** yn parhau i gael eu cynnwys mewn TGAU a Safon Uwch 2020-2021.

2. **Cyfres arholiadau mis Ionawr 2021** - Bydd asesiadau uned ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, Llenyddiaeth Saesneg a TGCh yn cael eu canslo. Bydd asesiadau eraill a gynlluniwyd yn mynd yn eu blaenau

Bydd trefniadau ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn parhau, a bydd angen sicrhau bod unrhyw waith ar gyfer yr Heriau yn barod yn unol â dyddiadau cau a osodwyd gan yr adran.

Rydym yn gwybod bod ein disgyblion ac athrawon yn awyddus i glywed am y penderfyniad hwn, ac er tegwch i ddysgwyr mae'r penderfyniad wedi gwneud cyn gynted â phosib.

Mae'r Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni, sy'n cynghori'r Gweinidog Addysg ar y polisi ar gyfer arholiadau Haf 2021, yn edrych yn fanwl ar y model asesu ar gyfer yr arholiadau. Byddwn yn eich hysbysu chi fel rhieni unwaith mae cyhoeddiad am drefniadau asesu Haf 2021 pan ddaw.

Yn ddiffuant,

Carwyn Jenkins
Dirprwy Bennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies